

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fynediad at Fancio

Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hymgysylltiad â Grŵp Strategaeth Arian Parod yr Awdurdodau ar y Cyd (JACS) a sicrhau bod anghenion penodol Cymru yn cael eu cynrychioli a'u hadlewyrchu yn y camau a gymerir i amddiffyn a gwella mynediad at arian parod.

Derbyn yn rhannol - fel ymateb drafft, gan nodi mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am hyn

Ymateb:

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynnu bod JACS yn sefydlu sianeli cyfathrebu clir, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd a digon aml i ymgysylltu'n effeithiol. Drwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod anghenion penodol dinasyddion Cymru yn cael eu clywed a'u bodloni yng nghyswllt parhau i gael mynediad hwylus ac am ddim at ffynonellau arian parod.

Ein gweledigaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol yw bod pawb sy'n byw yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau ariannol fforddiadwy a phriodol, sy'n cynnwys mynediad hwylus ac am ddim at arian parod; yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyngor a gwybodaeth y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau; ac yn meddu ar y cymhelliant a'r gallu ariannol i gael budd o'r gwasanaethau ariannol sydd ar gael iddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i hyn o hyd.

Goblygiadau ariannol – Dim. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hyn.

Argymhelliad 2

Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda LINK a'r rheoleiddwyr ar ymdrechion i gryfhau a chefnogi'r rhwydwaith peiriannau ATM rhad ac am ddim presennol, a sicrhau bod peiriannau ar gael lle mae eu hangen fwyaf.

Derbyn

Ymateb:

Wrth gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol, sydd ar waith tan 2021, cydnabyddir bod rhai camau'n ymwneud â materion sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yng Nghymru. Felly, byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu a dylanwadu ar lefel y DU er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion Cymru. Mae hyn yn cynnwys cysylltu a thrafod â LINK, sydd wedi ymrwymo i gadw mynediad am ddim at arian parod ledled y DU cyhyd ag y mae defnyddwyr angen hynny. Mae wedi ymrwymo i gadw'r peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio yn y lleoliadau mwyaf gwledig ac anghysbell, yn ogystal â gwella mynediad yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda LINK a phartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys y rheoleiddwyr, er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda hon. Bydd hyn yn cynnwys monitro nifer y cymunedau yng Nghymru a fydd yn elwa o gael peiriannau ATM newydd ar ôl cyflwyno Cronfa Gyflawni Mynediad at Arian Parod LINK.

Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 yn egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ymuno â sefydliadau partner, yng Nghymru ac ar lefel y DU, i weithio tuag at gymdeithas sy'n fwy cynhwysol yn ariannol yng Nghymru. Mae'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol yn canolbwyntio ar y camau ymarferol y mae angen i ni eu cymryd i gyflawni hyn. Mae'n nodi pa mor bwysig yw hi i bawb allu cael gafael yn hwylus ar amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau ariannol fforddiadwy sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol, yn ogystal â gallu cael gafael ar eu harian eu hunain, boed hynny drwy ddull awtomatig neu dros y cownter. Mae'r Cynllun Cyflawni yn adlewyrchu mai mater traws-lywodraethol yw mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol, a'i fod yn fater y dylai pob adran gyfrannu ato. Rhaid cael dull gweithredu traws-lywodraethol er mwyn helpu i liniaru'r effeithiau y mae cau banciau yn eu cael ledled Cymru.

Goblygiadau ariannol – Dim.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall hybiau rhanbarthol, a chydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau, wella'r mynediad at arian parod yng nghymunedau Cymru (gan gydnabod bod trin arian parod yn fusnes drud).

Derbyn mewn egwyddor

Ymateb: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cael rhanddeiliaid i gydweithredu a'r effaith ar y cyd sy'n angenrheidiol er mwyn i'r argymhelliad hwn lwyddo. Mae hefyd yn cydnabod bod gofyn cael elfennau o ddull gweithredu o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny wrth ymgysylltu. O ganlyniad i hyn, byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon ystyried cynigion a fyddai'n cael eu cyflwyno drwy gyrff y sector neu sianeli eraill. Y nod fyddai gweithio ochr yn ochr â sefydliadau busnes i ganfod sut gallwn ni eu cefnogi i fynd i'r afael â'u problemau.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 4

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda llywodraeth leol i sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gynnal y seilwaith arian parod, er enghraifft drwy gydbwyso mesurau cadwraeth treftadaeth â'r angen i gynnal mynediad at beiriannau ATM mewn ardaloedd gwledig.

Gwrthod

Ymateb:

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn barod, sy'n gallu darparu cymorth ar gyfer y seilwaith arian parod yn yr ardal honno. Yng nghyswllt cau yn weithredol am resymau busnes, ni all y system gynllunio atal busnes rhag cau.

Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnwys polisi rheoli datblygu manwl yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol, sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer sut gellir cynnwys technoleg bancio, neu beidio, mewn adeilad o natur hanesyddol. Mater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yw hwn, nid i Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y bydd ei chynlluniau i ddiwygio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cyfunol, a'r hawliau datblygu a ganiateir, yn ystyried yr angen i amddiffyn a chynnal seilwaith bancio yng nghymunedau Cymru.

Derbyn

Ymateb: Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, gan weithio tuag at roi gorchymyn wedi'i gydgrynhoi ar waith yn 2021. Nid yw'r gorchymyn yn atal banciau rhag cau, ac ni fydd yn gallu gwneud hynny. Byddai'r system gynllunio gwlad a thref yn gallu ystyried a ddylid cadw'r adeilad at ddefnydd gwasanaethau proffesiynol neu ariannol. Wrth ystyried y gorchymyn a'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 cysylltiedig, byddwn yn ystyried a yw'r posibilrwydd o gael eiddo gwag yng nghanol y dref yn gwrthbwysio manteision cadw adeiladau o'r fath at ddefnydd posibl fel banc yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Pwyllgor pan fydd yn penderfynu pa ffordd yr hoffai symud ymlaen.

Goblygiadau ariannol – Bydd asesiad effaith rheoleiddiol yn cael ei baratoi i gyd-fynd ag unrhyw newidiadau rheoleiddiol sy'n nodi'r goblygiadau ariannol. Bydd modd paratoi drafft o'r ddeddfwriaeth o fewn cyllideb bresennol y Gyfarwyddiaeth Gynllunio. Byddai paratoi cais cynllunio yn faich ariannol ychwanegol, yn arbennig ar gyfer busnesau bach a chanolig. Mae cais am newid defnydd yn costio £380 gan amlaf. Nid oes cost i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth y DU a'r grŵp JACS adolygu a yw'r Safon Mynediad at Fancio yn ddigon cadarn i fynd i'r afael ag effaith cau banciau ar bobl sy'n agored i niwed, ar fusnesau bach a chanolig ac ar gymunedau lleol, neu a oes angen cymryd camau rheoleiddio neu gamau lliniaru eraill.

Gwrthod

Ymateb:

Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor yn yr argymhelliad, ni all dderbyn yr argymhelliad, oherwydd mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn.

Goblygiadau ariannol – Dim.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei chefnogaeth i Rwydwaith Swyddfa'r Post ac archwilio gyda Llywodraeth y DU a Swyddfa'r Post Cyf sut i gefnogi ymdrechion i ehangu'r gwasanaethau arian mewn ac allan a'r gwasanaethau eraill y gall eu cynnig, ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i gwasanaethau bancio ledled Cymru.

Derbyn yn rhannol

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas dda â Swyddfa'r Post Cyf ac mae'n cytuno i weithio gyda Swyddfa'r Post Cyf i archwilio beth y gall ei wneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i gwasanaethau bancio ledled Cymru.

Ymateb:

Nid oes unrhyw gynlluniau i ailgyflwyno cymorth i Rwydwaith Swyddfa'r Post yng Nghymru.

- Nid yw materion Swyddfa'r Post wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.
- Mae Llywodraeth y DU yn rhoi cymhorthdal i gefnogi'r Rhwydwaith i ddarparu ei wasanaethau craidd.
- Mae Llywodraeth y DU hefyd yn rhoi grantiau gwella i swyddfeydd post unigol fel rhan o'r rhaglen foderneiddio.
- Ceir cytundeb ar sail fasnachol rhwng Swyddfa'r Post Cyf a banciau'r stryd fawr, sy'n golygu bod modd cael mynediad at rywfaint o wasanaethau bancio.

Goblygiadau ariannol – Mater i Lywodraeth y DU yw cyllid ar gyfer Swyddfeydd Post. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gyllideb i ystyried cynllun newydd i gefnogi Swyddfeydd Post.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru fapio'r bylchau mewn gwasanaethau bancio yn gyffredinol - mynediad at fanciau, Swyddfeydd Post, peiriannau ATM rhad ac am ddim i'w defnyddio a chysylltedd ar gyfer bancio digidol. Yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r bylchau, dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth arall y gall ei wneud i fynd i'r afael â'r effeithiau lles sy'n gysylltiedig â llai o fynediad mewn

cymunedau gwledig, e.e. buddsoddi mewn opsiynau trafndiaeth, dulliau partneriaeth, ymyriadau cynllunio a phrosiectau cysylltedd i wella mynediad yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf.

Derbyn mewn egwyddor

Ymateb:

Er mwyn cyflawni'r argymhellion hwn (fel argymhelliad 3) bydd gofyn cael dull gweithredu sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid er mwyn gwireddu egwyddor yr argymhelliad yn llwyr. Mae'r gwaith dichonolrwydd ar gyfer y Banc Cymunedol yn dechrau rhoi sylw i'r cam gweithredu hwn yn rhannol, ond fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod bod set ehangach o gamau. Mae grŵp ymchwil Dirnad Economi Cymru Banc Datblygu Cymru yn gwneud gwaith cynnar yn y maes hwn yng nghyswllt y Banc Cymunedol. Byddwn yn parhau i adolygu a diweddarau camau gweithredu priodol, er enghraifft wrth ystyried opsiynau trafndiaeth, yn seiliedig ar ganlyniad y gwaith hwn.

Swyddfeydd Post

Mae gan Swyddfa'r Post Cyf ddata sy'n mapio lleoliad swyddfeydd post, yn ogystal â'r math ohonynt a'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae gwybodaeth am swyddfeydd post unigol ar gael ar wefan Swyddfa'r Post. <https://www.postoffice.co.uk/>

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 i Swyddfa'r Post Cyf gyhoeddi adroddiad blynyddol ar Rwydwaith Swyddfa'r Post. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am faint a siâp y Rhwydwaith yn y DU.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad yn erbyn y meini prawf mynediad cenedlaethol. Mae Adroddiad Rhwydwaith Swyddfa'r Post 2019 ar gael yma:

<http://corporate.postoffice.co.uk/modernising-post-office>

LINK

LINK yw rhwydwaith peiriannau arian parod mwyaf y DU sydd wedi ymrwymo i gadw mynediad am ddim at arian parod ledled y DU cyhyd ag y mae defnyddwyr angen hynny. Mae gan wefan LINK [adnodd canfod ATM sy'n nodi lle mae'r holl beiriannau arian parod, gan gynnwys y rhai y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim. Mae'r ddolen ar gael yma: https://www.link.co.uk/consumers/locator/](https://www.link.co.uk/consumers/locator/). Mae LINK wedi rhyddhau ap yn ddiweddar, sy'n darparu'r un swyddogaeth i bobl pan fyddant ar y lôn.

Goblygiadau ariannol – Mae cost lawn cyflawni'r argymhelliad yn dibynnu ar gwblhau'r gwaith sydd wedi'i nodi yn yr ymateb, a fydd yn cefnogi gofynion terfynol ac yn sicrhau gwerth am arian. Gallai hwn fod yn gontract ymchwil sylweddol, gwerth £25-50k+ yn dibynnu ar y gofyn.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ar drywydd gweithredu mesurau i ddarparu cysylltedd digonol ar gyfer bancio digidol ledled Cymru gyfan gyda Llywodraeth y DU ac Ofcom, a hynny ar frys.

Derbyn

Ymateb:

Mae prosiect Cyflymu Cymru eisoes wedi sicrhau bod dros 733,000 o eiddo ledled Cymru yn gallu cael mynediad at fand eang ffibr cyflym. Mae gan tua 94 y cant o eiddo yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn erbyn hyn.

Mae yna gyfnod yn ystod y blynyddoedd nesaf pryd bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu band eang cyflym i'r eiddo hynny nad oes ganddynt fand eang cyflym iawn ar hyn o bryd. Nod y prosiect presennol o gyflwyno ffeibr yw sicrhau bod 26,000 o eiddo eraill yn cael mynediad at gysylltiad ffeibr llawn.

Ond, mae'r ffocws yn newid, ac mae mwy o bwyslais ar fand eang cyflymach sy'n gallu delio â gigabid. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y byddai'n ymrwymo £5bn i dalu am wasanaethau sy'n gallu delio â gigabid yn yr 20 y cant o'r DU anoddaf eu cyrraedd. Dyma'r eiddo nad oes disgwyl iddynt gael gwasanaeth masnachol â band eang sy'n gallu delio â gigabid. Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod wrthi'n datblygu'r dull darparu a lleoliad yr eiddo hyn. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgysylltu â swyddogion ar draws y gwledydd datganoledig yn ystod camau cynnar y gwaith datblygu hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU hefyd ar raglenni Rhwydwaith Lleol Ffeibr Llawn (LFFN) a Chysylltedd Gigabid Gwledig. Mae'r ddwy raglen yn gweithio gyda Phrosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, ac mae LFFN yn gweithio gydag awdurdodau lleol hefyd, er mwyn canfod adeiladau sector cyhoeddus ledled Cymru lle bydd modd uwchraddio'r cysylltiadau copr presennol yn gysylltiadau ffeibr llawn.

O ran cysylltiad symudol, mae'r diwydiant symudol wedi cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â manau rhannol wan a manau cwbl wan ac i un cwmni, o leiaf, gyrraedd 95 y cant o ardal ddaearyddol y DU, y pedwar cwmni i gyrraedd 92 y cant, ac 86 y cant yng Nghymru. Maent wedi bod yn trafod eu cynigion â Llywodraeth y DU, sydd wedi cytuno â'r cynigion mewn egwyddor. Mae rhagor o drafodaethau ar y gweill. Mae swyddogion yn cysylltu â'u swyddogion cyfatebol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch y cynigion.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 10

Dylai cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol flaenoriaethu a) cynnal cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau digidol sy'n bodoli eisoes, b) ymgynghori â rhanddeiliaid ar sut i fynd i'r afael ymhellach â'r rhwystrau i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed gael mynediad diogel at fancio ar-lein, ac c) darparu cymorth ychwanegol i athrawon ddarparu addysg ariannol o fewn y cwricwlwm ysgolion.

Derbyn

Ymateb:

- a. Mae Fframwaith Cynhwysiant Digidol a Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru (Mawrth 2016) yn cydnabod mai proses barhaus sy'n galw am gymorth parhaus yw bod yn gwbl gynwysedig yn ddigidol. Ni all Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r broblem ar ei phen ei hun. Mae angen ymrwymiad ein holl bartneriaid a'r gymdeithas ehangach.

Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder, Iechyd a Lles Digidol (1 Gorffennaf 2019 - 30 Mehefin 2022), sy'n werth £2m y flwyddyn, yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'n canolbwyntio ar wella gallu digidol dinasyddion a staff iechyd a gofal, gan alluogi mwy o bobl i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu iechyd a'u lles eu hunain. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu hyfforddiant i staff rheng flaen a gwirfoddolwyr er mwyn eu galluogi i helpu pobl heb unrhyw sgiliau digidol neu ddim o gwbl, i elwa o fod ar-lein, ee; rheoli arian drwy fancio ar-lein ac adnoddau cyllidebu ar-lein; chwilio am waith ac aros mewn gwaith am gyfnod hwy; teimlo'n llai ynysig a chael mwy o gymorth ar gyfer byw yn annibynnol.

- b. Mae Cymunedau Digidol Cymru yn gweithio gyda Lloyds, Barclays, Principality a Natwest i gydlynu gweithgareddau cynhwysiant digidol yn well ar draws cymunedau. Ond, rhaid i fanciau helpu i sicrhau bod eu cwsmeriaid, gan gynnwys pobl hŷn ac agored i niwed, yn cael cyfle i fagu hyder a datblygu'r sgiliau digidol i gael mynediad at yr amrywiaeth lawn o wasanaethau bancio sydd eu hangen arnynt, a darparu mesurau eraill i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein neu nad ydynt am ddefnyddio gwasanaethau o'r fath.

Er mwyn cefnogi'r agenda sgiliau digidol, mae Llywodraeth Cymru wedi talu am gyfieithu Learn My Way (LMW), sef llwyfan sgiliau digidol sylfaenol ar-lein, er mwyn sicrhau bod y cynnwys ar gael yn ddwyieithog. Mae LMW yn cynnwys cyrsiau sy'n ymwneud â rheoli arian ar-lein, nodweddion sylfaenol bod ar-lein a diogelwch ar-lein. Mae'r llwyfan yn galluogi unigolion i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol wrth eu pwysau ac mewn lleoliad sy'n hwylus iddynt hwy - ac mae ar gael am ddim.

- c. Bydd cymhwysedd digidol a rhifedd yn cael eu cynnwys fel sgiliau trawsbynciol gorfodol yn fframwaith y cwricwlwm newydd. Mae Fframwaith Cymhwysedd Digidol diwygiedig wrthi'n cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd ac i gefnogi ymarferwyr i gynnwys sgiliau digidol wrth ddysgu ac addysgu. Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gallu mewn mathemateg a rhifedd, a rhoi'r sgiliau hynny ar waith mewn cyd-

destunau dilys fel dysgu sut mae rheoli arian. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu llythrennedd ariannol a rhifedd mewn ffordd sy'n atgyfnerthu'r naill a'r llall. Bydd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd diwygiedig ar gael i gefnogi ymarferwyr i sefydlu'r sgiliau hyn. Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr ac arbenigwyr i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i athrawon a dysgwyr i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

Er enghraifft, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau a'r consortia addysg rhanbarthol i hwyluso prosiect newydd i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon. Roedd gwaith dadansoddi ac ymgynghori â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth hwn wedi nodi bod diffyg hyfforddiant addysg ariannol ar gael i athrawon, ac roedd athrawon yn dweud nad oedd ganddynt yr hyder, yr wybodaeth na'r sgiliau.

Rydym yn cydnabod bod y cwricwlwm newydd a newidiadau i addysg athrawon yng Nghymru yn gyfle unigryw i gynnwys ysgolion, athrawon ac addysgwyr athrawon mewn rhaglen o hyfforddiant addysg ariannol. Nod y prosiect yw profi dulliau o wella pa mor effeithiol yw addysg ariannol mewn ysgolion drwy gynnwys dysgu proffesiynol am addysg ariannol i ymarferwyr. Rydym yn bwriadu datblygu a darparu hyfforddiant addysg ariannol (ar gyfer y cyfnod cynradd ac uwchradd) drwy e-ddysgu ac wyneb yn wyneb. Ategir hyn gan athrawon sy'n dilyn yr hyfforddiant yn datblygu adnodd i athrawon ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl sut y mae'n bwriadu ystyried pa effaith y mae banciau'n cau a cholli peiriannau ATM rhad ac am ddim yn ei chael ar gymunedau, canol trefi a strydoedd mawr yn ei gweithgareddau adfywio ac adeiladu cyfoeth cymunedol.

Derbyn mewn egwyddor

Ymateb:

Mae cefnogi canolfannau trefi yn un o gonglfeini gweithgareddau Llywodraeth Cymru ym maes adfywio. Gan ystyried cyllid trosoledd, erbyn yr adeg pryd bydd ein rhaglenni adfywio presennol wedi'u cwblhau, byddwn ni wedi buddsoddi £800 miliwn mewn canolfannau trefi ac ardaloedd cyfagos ledled Cymru ers 2014.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol drwy ein rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, sy'n werth £100 miliwn. Yn ogystal â hyn, mae yna gynllun Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, sy'n werth £54m a chynllun Benthyciadau Canol Trefi, sy'n werth £31.5 miliwn, ac rydym yn parhau i gefnogi Ardaloedd Gwella Busnes, rhai sy'n bodoli eisoes a rhai sydd wrthi'n datblygu, ledled Cymru.

Mae'r rhaglenni hyn yn hybu adfywiad economaidd a hyfywedd canol trefi a chymunedau, ac yn aml maent yn gatalydd i ddefnyddio adeiladau gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon mewn canolfannau trefi, gan gynnwys adeiladau banciau gwag.

Nid ydym yn gallu rhoi cymorth i weithgareddau adfywio ymhob cymuned, felly mae angen blaenoriaethu, ac ar lefel leol neu ranbarthol y gwneir hyn orau. Mater i'r Awdurdodau Lleol yw penderfynu ar ba drefi allweddol i ganolbwyntio o ran sicrhau cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, gyda'r rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, mae'r Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ganfod a blaenoriaethu trefi a phrosiectau mewn dyraniad cyllid rhanbarthol y cytunwyd arno. Gall Awdurdodau Lleol ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar y trefi a'r prosiectau sy'n flaenoriaeth iddynt. Yna, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol i ddatblygu'r prosiectau hynny cyn gallu gwneud penderfyniad ynghylch y cymorth ariannol.

Rydym hefyd yn darparu cyllid i'r Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, sy'n cynorthwyo i adfer yr hen ardaloedd glofaol yng Nghymru, ac maent yn gysylltiedig â helpu'r cymunedau hynny i ganfod adeiladau lle gellid gosod peiriannau ATM a 'broceru' cytundebau i osod peiriannau ATM i'w defnyddio'n rhad ac am ddim.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynnig ynghylch bancio cymunedol yng Nghymru yn ystyried yn llawn yr angen i ddarparu gwasanaethau bancio dwyieithog.

Derbyn

Ymateb:

[Nodyn: Er mai'r ateb i 12, 13 ac 14 yw derbyn yr argymhellion, byddem yn gofyn i'r Pwyllgor nodi nad yw cyflawni pob un yn llwyr yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn unig. Bydd angen hefyd i randdeiliaid chwarae eu rhan yn y gwaith cyflawni, ac i bartion eraill gwrdd â'r dyddiadau cau – er enghraifft wrth wneud cais am drwydded bancio]

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth i ddarparu, yn amodol ar fwy o ddiwydrwydd dyladwy, hyd at £600,000 o arian sbarduno (mae Argymhelliad 13 yn cyfeirio at hyn) i Fanc Cambria (Cambria Cydfuddiannol Cyf) i gefnogi ei ddatblygiad yn y cyfnod cynnar a'i gais wedyn am drwydded fancio. Fel rhan o'r gwaith datblygu, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael cysylltiad â Banc Cambria, ac wedi'u cyflwyno at Gomisiynydd y Gymraeg, a bydd yn parhau i sicrhau bod y ddeialog yn parhau.

Goblygiadau Ariannol – Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, ond y Banc Cymunedol, fydd y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth bancio dwyieithog. Bydd angen i'r Banc Cymunedol ystyried gofynion o'r fath wrth ddatblygu cynllun busnes wedi'i gostio'n llawn.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Roi sicrwydd bod y broses diwydrwydd dyladwy ar gyfer cefnogi banc cymunedol Banc Cambria yn cynnwys asesiad trylwyr o'r effaith y gallai hyn ei chael ar y sector undebau credyd, a nodi sut y bydd yn lliniaru effeithiau a allai fod yn negyddol mewn ymgynghoriad â'r sector hwnnw;
- Darparu manylion am ei strategaeth ar gyfer rheoli'r risgiau parhaus sy'n gysylltiedig â rhoi arian cyhoeddus yn y model bancio heb ei brofi sydd gan y Gymdeithas Banc Cynilion Cymunedol, ac egluro lefel y gefnogaeth y mae'n rhagweld y bydd yn ei chynig i'r banc cymunedol yn y dyfodol;
- Cadarnhau'r amserlenni ar gyfer darparu banc cymunedol i Gymru; a
- Chadarnhau a yw'n hyderus y bydd cynnig Banc Cambria yn cwrdd â'r awydd amlwg am wasanaethau bancio wyneb yn wyneb ffisegol ar gyfer cwsmeriaid hŷn, anabl a'r rhai sy'n agored i niwed.

Derbyn

Ymateb: Bydd aelodau'n nodi'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma - https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-bancio-cymunedol?_ga=2.2234422.747527012.1574952758-1552809866.1563181093

Bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i phroses diwydrwydd dyladwy, yn ystyried yr effaith y gallai Banc Cambria ei chael ar y sector undebau credyd, rhwydwaith Swyddfa'r Post a Banc Datblygu Cymru. Bu'n eglur ers y cychwyn yn ei ohebiaeth â Banc Cambria y dylai unrhyw ateb i ddelio â thynnu banciau oddi ar y Stryd Fawr geisio mynd i'r afael â methiant y farchnad a grewyd o ganlyniad i'w tynnu, ac ni ddylid dyblygu nac amharu ar y ddarpariaeth gwasanaethau presennol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda Banc Cambria a'r mudiad undebau credyd yng Nghymru i sicrhau dull cyd-gysylltiedig.

Y buddsoddiad cychwynnol a gynigir i Fanc Cambria yw profi dichonoldeb a phrawf o'r cysyniad yn y cam cyntaf er mwyn galluogi'r banc i ymgysylltu â'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) gyda'r bwriad o gael caniatâd i sefydlu banc; nid yw wedi cyrraedd y cam o ddarparu'r buddsoddiad mwy sylweddol y bydd ei angen i gyfalafu'r banc os bydd yn llwyddo i gael trwydded fancio. Mae'r buddsoddiad cychwynnol ar gyfer y gwaith datblygu yn y cam cynnar yn cael ei ddarparu fesul cam, a bydd yn cael ei dalu ar gerrig milltir a sefydlwyd yn glir. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd mewn perthynas â lefelau gwariant, a sefydlir dulliau lliniaru pellach drwy'r gofynion llym a roddir gan PRA a'r FCA.

Ni all Llywodraeth Cymru gadarnhau'n benodol pryd caiff y banc cymunedol ei sefydlu oherwydd bydd rhaid i Fanc Cambria fodloni'r PRA a'r FCA, sydd â'r pwerau rheoleiddio i awdurdodi hynny. Caiff cynllun prosiect terfynol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2019 (un o'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt), ac mae'n sefydlu'n glir beth yw'r amserlen ar gyfer awdurdodi. Ar hyn o bryd, disgwyllir awdurdodi rhwng canol a diwedd 2021/dechrau 2022.

Bydd yr asesiad cynnar o'r farchnad a dichonoldeb yn ystyried darpariaeth gwasanaethau ar gyfer Banc Cambria mewn perthynas ag amrywiaeth o randdeiliaid a grwpiau o ddefnyddwyr. Ar hyn o bryd, nid oes modd penderfynu pa wasanaethau a gynigir yn derfynol, yn enwedig i fusnes a fydd yn cael ei gategoreiddio fel busnes newydd ddechrau. Fel sy'n arferol i unrhyw busnes sydd newydd ddechrau, bydd yn ceisio darparu gwasanaethau i gwsmeriaid a hefyd yn datblygu ar gyflymder sy'n sicrhau hyfywedd ariannol.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r swyddogion yn dal wrthi'n trafod gyda Banc Cambria i gwblhau cyfanswm yr ymrwymiad ar gyfer y camau dichonoldeb/cais. Gan ystyried y gydnabyddiaeth hon a'r gyllideb sydd ar gael, nid yw'r holl fuddsoddiad yn debygol o fod yn fwy na £600,000, a bydd yn cael ei ddarparu yn ôl meini prawf sy'n seiliedig ar lwyddiant ac sydd fesul cam.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd syniadau cydweithredol eraill ar gyfer darparu gwasanaethau bancio, gan gynnwys drwy drefniadau partneriaeth, ochr yn ochr â'i chefnogaeth i fodel bancio cymunedol Banc Cambria. Dylai ei meini prawf ar gyfer cefnogi cynigion i wella mynediad at wasanaethau bancio fod â phwyslais cryf ar warantu mwy o gynhwysiant ariannol.

Derbyn mewn Egwyddor

Ymateb: Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cefnogi partneriaeth sydd wedi cael ei chreu rhwng Banc Cambria a Chymdeithas Banc Cynilion Cymunedol i brofi'r posibilrwydd o sefydlu banc cymunedol ar gyfer Cymru. Mae Banc Cambria wrthi'n cymryd rhan yng ngham cyntaf y gwaith, sy'n cynnwys cynllun prosiect manwl, ymgysylltu â rhanddeiliaid, asesiad cychwynnol o'r farchnad, ac astudiaeth ddichonoldeb i ganfod pa mor hyfyw yw sefydlu Banc Cymunedol yng Nghymru. Bydd hyn yn gymorth i bennu beth yw maint posibl y farchnad yng Nghymru, a'r dichonoldeb cychwynnol i gael sylfaen cwsmeriaid sy'n ddigon mawr i gefnogi hyfywedd ariannol y banc.

Un maes allweddol sy'n gysylltiedig â'r cam cyntaf hwn yw creu cynllun ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chwblhau'r gwaith cyflenwi yn nechrau 2020. Mae hyn yn cynnwys archwilio trefniadau partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i ganfod cynllun sy'n ategu ac yn mynd i'r afael â methiant y farchnad, tra'n lleihau'r perygl o ddyblygu. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen i weithio ar y cyd ag undebau credyd a chymdeithasau adeiladu i ganfod yr atebion gorau i wella mynediad at wasanaethau bancio, ac mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cynhwysiant ariannol i bawb. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cwrdd â Rhwydwaith Undebau Credyd Cymru i archwilio cyfleoedd i gydweithio pryd bynnag y bo modd.

Yn fwy eang ac ar yr un pryd, mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol i gadw'r dewisiadau ehangach ar agor ac i roi cyfle i ymgysylltu. Y nod yw sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu harchwilio, oherwydd gallai cyflymder y newid yn y sector arwain at actorion a chyfleoedd newydd.

Goblygiadau Ariannol – Byddai angen asesiad gwerth llawn mewn perthynas â'r costau a ganfuwyd, ond nid yw'n cael ei ariannu ar hyn o bryd, ac mae'n dibynnu ar y canlyniad.